

# Wentlooge

## Amdiffynfeydd presennol a'r tebygolrwydd o lifogydd

Mae tua 8,700 o eiddo yn elwa ar hyn o bryd o amddiffynfeydd llanw presennol.

Mae seilwaith pwysig a ddiogelir yn cynnwys llinellau trawsyrro trydan a'r rheilffordd.


Mae gan y rhan fwyaf o eiddo berygl llifogydd llanw o 1 siawns mewn 200 neu lai mewn unrhyw flwyddyn.

Profodd caeau sy'n agos at yr amddiffynfeydd, ddŵr yn chwistrellu o'r tonnau yn lleol yn ystod y rhan fwyaf o'r blynyddoedd.

Argloddiau pridd yw'r rhain, rhai ohonynt ag wyneb o garreg neu amddiffynfeydd meini. Gellir uwchraddio'r rhain ar yr adeg iawn.

Mae rhan is o'r arglawdd yn Tabb's Gout sydd â pherygl uwch o lifogydd llanw lleol.

Bydd perygl llifogydd yn cynyddu wrth i lefelau'r môr godi ac wrth i stormydd waethgu.



## Beth ellir ei wneud?

Yn y pum mlynedd nesaf cynigiwn wneud gwelliannau ar ddarn gwanach o'r arglawdd ger Tabb's Gout.

Byddai'r weithred hon yn sicrhau bod y siawns o lifogydd llanw yn gyson ar draws yr ardal ar siawns o 1 mewn 200 neu lai.

Disgwylwn gryfhau'r amddiffynfeydd drwy godi uchder yr arglawdd i gadw'n wastad â newid hinsawdd.

Byddai hyn yn sicrhau bod y siawns o lifogydd llanw yn aros ar 1 mewn 200 neu lai mewn unrhyw flwyddyn ar gyfer tua 8,700 o eiddo. Disgwylwn y bydd angen y gwariant sylweddol hwn wedi 50 mlynedd a thu hwnt.

Rhaid i ddatblygiadau newydd ystyried Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN15) – Datblygu a Pherygl Llifogydd

## Nodyn ar godiad yn lefel y môr

Mae senario allyriadau canolog UKCP09 yn rhagweld codiad yn lefel y môr o 0.1m erbyn 2030, tua 0.3m erbyn 2060 a 0.7m erbyn 2110.

Ar hyn o bryd mae lefel y môr yn codi rhyw 2 i 2.5mm y flwyddyn. Os bydd y gyfradd hon yn parhau yna byddai codiad yn lefel y môr yn llai na'r hyn a ragamcanwyd gan y senario allyriadau canolog UKCP09.

## Sut y penderfynwyd ar y cynigion hyn

Mae achos economaidd gref dros gynnal a gwella'r amddiffynfeydd presennol oherwydd y nifer uchel o eiddo a seilwaith a ddiogelir. Nid yw ailadeiladu'r amddiffynfeydd ymellach i mewn i'r tir yn opsiwn rhatach ar gyfer y dyfodol agos.

## Allwedd



Amdiffynfeydd presennol a gyfeirir atynt yn y ddogfen